COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 25.03.23

.

PRESENNOL – Gwyn Davies, Llyr Jones (Cadeirydd), Gwynfryn Jones, Awel Hughes, Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc).

1. YMDDIHEURIADAU – Glennydd Evans, Sioned W Jones, Carwyn Edwards

2. DATGAN BUDDIANNAU – Awel Hughes (Trafodaeth Pwynt 9)

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir Gwynfryn ac eilwyd gan Gwyn.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –

Cwt Hers – Penderfynwyd gadael y cwt hers fel ag y mae ar y funud.

Wedi derbyn pris gan Gwilym Prys ynglyn a thacluso y coed yn y fynwent o £780+ TAW . Penderfynwyd ein bod yn derbyn y pris a gofyn Gwilym gario ymlaen.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 28.02.23 £23843.65

Gwariant hyd yma Nant Fach - £2,564.95

Dywedodd y Clerc iddi gael ad- daliad TAW o £345.70 am y flwyddyn a hefyd wedi derbyn £3147.40 gan Melinoedd gwynt Nant Bach.

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Awel ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Unllais Cymru Aelodaeth | s137 | £90.00 |
| 2. Cyng. Conwy Chwaraeon yr haf | s137 | £200.00 |
| 3. Lelo Sgips Hire | s150 | £624.00 |
| 4. Rhian Ellis Clerc | s150 | £1500.00 |
| 5. Rhian Ellis Costau | s150 | £100.84 |

7. NEUADD FACH - .Dim diweddariad

8.CAEAU CHWARAE -

Llangwm – Yn dilyn cyfarfod ar safle y Parc yn Llangwm gyda aelodau o'r Cyngor Sir ynghyd a Cyng. Gwennol Ellis cafwyd wybod bod y Cyngor am roi parc newydd ar y safle yn Llangwm ac y bydd wedi ei osod gyda'r gobaith erbyn mis Mehefin.

Dinmael – Penderfynwyd aros hyd nes y bydd Parc Llangwm yn ei le ac yna dechrau ar y gwaith unwaith eto I gael y parc yn Dinmael

9. CYNLLUNIO – 9 Bell Tent yn Gaer Gerrig. – Ni gymerodd Cyng. Gwennol Ellis na Awel Hughes ran yn y drafodaeth.

Yn dilyn amryw o gwynion gan aelodau o'r gymdeithas ynglyn a'r cais cynllunio yma a thafodaeth gan y Cynghorwyr, mae amryw o lythyrau gwrthwynebu wedi mynd I

fewn I'r sir er bod dyddiad cau I ymateb wedi pasio mi roedd aelodau o'r Pwyllgor yn gwrthwynebu.

Glanrafon. – newid adeilad I fod yn Dy Gwyliau – Dim gwrthwynebiad.

11. UNRHYW FATER ARALL – GOHEBIAETH

1. Eglwys St Jerome. Yn dilyn llythyr gan Mr Levens yn gofyn am newidiadau I'r cynllun gweiddiol – Penderfynwyd nad yw y Cyngor Cymuned yn barod I newid unrhyw ran o'r Cais Cynllunio gwreiddiol – y clerc I anfon at Mr Levens I esbonio

2. Fit Conwy yn gofyn am gyfraniad o £200 I redeg clwb plant dros wyliau'r haf – Penderfynwyd cyfrannu.

3. Llythyr gan Helen Goddard ynglyn a'r Llyfrgell Uwchaled – angen aelod o'r Cyngor Cymuned I fod yn Ymddiriedolwr yn y Llyfrgell.

12. EITEMAU I'R PWYLLGOR NESA'.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

Mai 24ain yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol